LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBOL IFANC

LLWYDDO'N LLEOL 2050

ENW: Lydia Jones

LLEOLIAD: Y Ffôr, Gwynedd

Y SWYDD: Pennotec – Peiriannydd Prosiectau

BETH YDY DY SWYDD?

Fel Peiriannydd Prosiectau, mae bob diwrnod mor wahanol. Rhai diwrnodau rydw i wrth y ddesg yn gwneud gwaith ymchwil neu weinyddol ond weithia' dwi'n gweithio tu allan yn adeiladu, rhedeg neu drwsio offer, a llawer mwy! Mae 'na amryw o bethau dwi'n gwneud yn y swydd.

PAM ES TI AT LLWYDDO'N LLEOL?

Es i at brosiect Llwyddo'n Lleol i gael cefnogaeth ychwanegol yn y maes dwi'n gweithio ynddo, sef peirianneg. Roeddwn i'n awyddus i ddatblygu yn broffesiynol ac roedd yr elfen Gyrfaol drwy Llwyddo'n Lleol yn caniatáu i mi gael hyfforddiant i wneud hyn.

BE WNES DI DDYSGU O'R CYMORTH HYFFORDDIANT GES DI?

Ar y cyrsiau roedd pobl o lefydd gwahanol o bob rhan o Brydain, ac roedd o'n *rili* da gallu cyfarfod nhw a chael sgyrsiau i ddysgu am eu profiadau nhw a sut oedd tirwedd eu hardal nhw yn effeithio ar eu gwaith. Dwi wedi dysgu lot ac mae wedi rhoi pob dim mewn cyd-destun i fi, yn enwedig mewn ardal fel Pen Llŷn, ble mae cadw diwylliant ac iaith mor bwysig i'r gymuned.

Trwy'r gefnogaeth gan Llwyddo'n Lleol dwi wedi cynnal diwrnod agored i fyfyrwyr coleg. Mae o wedi rhoi cyfle i fi siarad efo nhw am beth dwi wedi'i ddysgu, a gallu dangos bod cyfleoedd a gyrfaoedd gwyddonol fel peiriannydd ar gael yn yr ardal.

PA EFFAITH MAE HYN WEDI'I GAEL?

Trwy gefnogaeth Llwyddo'n Lleol, dwi wedi dysgu llawer ar y cyrsiau ac wedi gallu rhoi hyn ar waith yn Pennotec, sydd wedi ychwanegu gwerth i be dwi'n wneud a be mae'r cwmni'n wneud. Dwi rŵan yn teimlo'n fwy hyderus i siarad am y pynciau yma.

Roedd o'n bwysig i fi i gael swydd yn y maes yma, ac yn enwedig yn lleol er mwyn gallu aros adra. Oni bai am gefnogaeth Llwyddo'n Lleol, fyswn i unai wedi gorfod symud i ffwrdd o'r ardal neu wneud rhywbeth arall nad oeddwn i eisiau ei wneud.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government